**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Medi 2013**

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

**Adroddiad gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth i aelodau ynglŷn â chyfarfodydd a digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd eu swyddi rhwng Mehefin a Medi 2013.

## Gwybodaeth

2 Rhestrir isod y digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychwyd gan y Cadeirydd (C) a/neu'r Dirprwy Gadeirydd (DG):

| | |
|---|---|
| 20/06/13 | Cynhadledd WLGA, Caerdydd (C) |
| 21/06/13 | Cyfarfod Blynyddol WLGA, Caerdydd (C) |
| 21/06/13 | Seremoni Cyrhaeddiad y Ffenics, Y Waun (DG) |
| 10/07/13 | Cyfarfod cyn y Panel Gweithredol gyda'r Undebau, Pencadlys (C) |
| 23/07/13 | Agor Tendrau, Pencadlys (C) |
| 30/07/13 | Pwyllgor Materion Cenedlaethol, Llandrindod (C a DG) |
| 30/07/13 | Cyfarfod Ymddiriedolwyr Atal Tân, Llandrindod (C) |
| 02/08/13 | Agor Tendrau, Pencadlys (C) |
| 09/08/13 | Seremoni Cyrhaeddiad y Ffenics, Yr Wyddgrug (DG) |
| 22/08/13 | Rhoi tystiolaeth i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus, Caerdydd (C) |
| 04/09/13 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Partneriaethau, Conwy (C) |

3 Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu holl gyfarfodydd yr Awdurdod, Panel Gweithredol a'r Gweithgor Cynllun Gwella.

4 Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar y dyddiadau canlynol: 25/06/13, 10/07/13, 12/08/13, 03/09/13 a 13/09/13.

5 Bu i'r Cadeirydd ynghyd â chadeiryddion y ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru gyfarfod â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn ystyried tystiolaeth o dan saith thema cyffredinol a rhyngberthnasol: perfformiad; graddfa a gallu; trefn rheoli a llywodraethu; diwylliant ac arweinyddiaeth; a swyddogaeth Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad**

6 Argymhellir fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth â ddarparwyd.